# Cynllun Gweithredol 2024-2025

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales



# Cynnwys


## 3 Amdanom ni

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

## 4 Rhagair

Mae'r Cynllun Gweithredol hwn yn mlinellu'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu rydym wedi eu gosod i ni ein hunain i gefnogi'r broses o gyflawni ein gwaith yn ystod ail flwyddyn ein Cynllun Strategol tair blynedd.

## 5 Blaenoriaeth 1

Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt.

## 6 Blaenoriaeth 2

Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg.

## 7 Blaenoriaeth 3

Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd.

## 8 Blaenoriaeth 4

Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.

# Amdanom Ni



Rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru.

Rydym yn arolygu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru.

Rydym yn cynnal rhaglen o adolygiadau er mwyn edrych yn fanwl ar faterion cenedlaethol neu faterion mwy lleol.

Rydym yn monitro pryderon ac atgyfeiriadau diogelu.

Rydym yn cymryd camau rheoleiddio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd annibynnol cofrestredig yn bodloni gofynion deddfwriaethol.

Rydym yn argymell gwelliannau, di-oed a thymor hwy, i wasanaethau'r GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol.

Mae gennym dîm o 82 o aelodau o staff, sy'n gweithio ledled Cymru i gefnogi ein swyddogaethau a gwneud ein gwaith sicrwydd.

Mae gennym dîm o adolygwyr cymheiriaid arbenigol sy'n cael eu recriwtio'n barhaus gennym i ddarparu gwybodaeth arbenigol, gyfredol am wasanaethau a safonau ansawdd.

Mae gennym arbenigwyr ym maes Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a phanel o seiciatryddion sy'n darparu ein gwasanaeth meddyg a benodwyd i roi ail farn.

Mae gennym banel o Adolygwyr Profiad Cleifion ac Arbenigwyr drwy Brofiad i nodi llais cleifion allan yn arolygu.

# Rhagair

## Croeso i'n Cynllun Gweithredol ar gyfer 2024-2025.



**Alun Jones**
Prif Weithredwr
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

**"Mae ein rôl o ran cadarnhau a yw safonau yn cael eu cyrraedd yn y sector gofal iechyd bob amser yn bwysig, a byddwn yn parhau i weithio mewn ffordd gytbwys yn seiliedig ar risgiau yn ystod y flwyddyn nesaf."**

Mae'r Cynllun Gweithredol hwn yn amlinellu'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu rydym wedi eu gosod i ni ein hunain i gefnogi'r broses o gyflawni ein gwaith, wrth i ni fwrw at drydedd flwyddyn ein Cynllun Strategol.

Mae ein rôl o ran cadarnhau a yw safonau yn cael eu cyrraedd yn y sector gofal iechyd bob amser yn bwysig, a byddwn yn parhau i weithio mewn ffordd gytbwys yn seiliedig ar risgiau yn ystod y flwyddyn nesaf. Byddwn yn parhau i dynnu sylw at feysydd gwella ac arfer da, gan dynnu sylw at ganfyddiadau a themâu allweddol i ddarparu offer i wasanaethau gofal iechyd ysgogi gwelliant mewn system a gwasanaeth.

Mae ein gwaith arolygu a sicrwydd ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi'i gynllunio i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rolau statudol mewn perthynas â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) y Ddeddf Iechyd Meddwl a gofal iechyd annibynnol. Bydd ein gwaith ar arolygu a sicrwydd y GIG yn canolbwyntio'n bennaf ar y meysydd risg mwyaf sylweddol. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i gyflawni ein gweithgarwch craidd, gan gynnwys i adolygu argymhellion blaenorol, a'r gallu i ymateb i wybodaeth sy'n dod i'r amlwg.

Byddwn yn parhau i gryfhau ein hymgysylltiad trwy foderneiddio ein ffyrdd o weithio a gwella ein heffeithlonrwydd. Rydym yn cydnabod y galw a'r heriau y mae gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru yn eu hwynebu ac mae ein nod o lywio gwelliannau ym maes gofal iechyd yn bwysicach nag erioed. Byddwn yn parhau i amlygu meysydd pryder trwy ein harolygiad a gwaith sicrwydd er mwyn hyrwyddo canfyddiadau a themâu allweddol. Ein nod yw darparu gwasanaethau gofal iechyd gyda'r ddealltwriaeth sydd ei hangen arnynt i fesur eu gwaith cyflawni a gwella eu hunain.

Byddwn yn parhau i gydweithredu â sefydliadau partner i wella gwaith ymgysylltu a chyfnewid gwybodaeth, gan alluogi dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o'r dirwedd gofal iechyd yng Nghymru.

Rydym am ddeall mwy am grwpiau amrywiol, er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn ystyried y materion sy'n effeithio ar ansawdd y gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir. Trwy'r cynllun hwn, bwriadwn ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, er mwyn ein helpu i asesu ansawdd a hygyrchedd gofal iechyd i bawb ledled Cymru.

Mae'r cynllun eleni yn adeiladu ar ein datblygiadau trwy ddysgu rhagweithiol a thrwy wrando'n ofalus ar adborth ar sut rydym yn cyflawni ein gwaith. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein staff er mwyn gwella ein sgiliau a'n gwybodaeth. Rydym wedi cyflwyno sawl ffordd newydd o weithio er mwyn parhau i gyflawni ein swyddogaethau sefydliadol, gan ar yr un pryd sicrhau hyblygrwydd o ran unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Mae pobl wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud, ac mae'n bwysig ein bod yn ymdrechu i rannu'r hyn a ddysgwn, i fyfyrio ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda ac i roi'r hyn rydym wedi'i ddysgu ar waith er mwyn parhau i wella. Byddwn yn parhau i wrando a chefnogi llesiant ein staff i'w galluogi nhw a'n sefydliad i wella gofal iechyd ar gyfer pobl Cymru.

Rydym yn croesawu unrhyw adborth, felly cysylltwch os oes gennych unrhyw sylwadau am ein gwaith neu am wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

**Alun Jones, Prif Weithredwr**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

# Blaenoriaeth 1

## Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt.

| Camau Gweithredu Strategol |
|---|
| Byddwn yn ystyried ansawdd y gofal a ddarperir i bobl yn ystod eu cyfnod ar lwybr clinigol. |
| Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i wrando ar bobl wrth iddynt fynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt yn ystod eu taith gofal iechyd. |
| Byddwn yn adeiladu ar ein dull o archwilio'r gofal a ddarperir mewn ysbytai a'r tu allan iddynt, gan gydnabod bod llawer o bobl yn cael gofal yn y gymuned. |

| Camau Gweithredu 2024-2025 |
|---|
| Cynnal rhaglen o waith sicrwydd ac arolygu mewn lleoliadau gofal iechyd annibynnol, yn unol â'n dyletswyddau statudol. |
| Cynnal rhaglen o waith sicrwydd ac arolygu yn y GIG, gan ddefnyddio dull seiliedig ar risgiau, wedi'i lywio gan wybodaeth. |
| Cynnal adolygiad i archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant yn cefnogi anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru. |
| Cwblhau a chyhoeddi ein hadolygiad Cymru Gyfan o Benderfyniadau Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol (DNACPR). |

# Blaenoriaeth 2

## Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg.



| Camau Gweithredu Strategol |
|---|
| Byddwn yn adeiladu ar y modelau gwaith sicrwydd ac arolygu hyblyg y gwnaethom eu datblygu yn ystod y pandemig, gan ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i'n helpu i gynnal ein gwaith. |
| Byddwn yn defnyddio ein swyddogaeth gwybodaeth fewnol a'n gwaith gydag eraill i lywio ein gwaith tuag at y meysydd sy'n wynebu'r risg fwyaf. |
| Byddwn yn adeiladu ar ein dulliau ymgysylltu, er mwyn i ni allu cyfleu ein negeseuon yn gyflym i ysgogi gwelliant. |

| Camau Gweithredu 2024-2025 |
|---|
| Sicrhau y caiff yr holl bryderon y rhoddir gwybod i ni amdanynt mewn perthynas â darparwyr gofal iechyd eu rheoli'n effeithiol ac mewn modd amserol. |
| Gwneud y defnydd gorau o'n prosesau risg ac uwchgyfeirio mewnol er mwyn llywio ein rhaglen sicrwydd. |
| Adolygu proses hysbysu'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) er mwyn gwirio y caiff digwyddiadau eu rheoli'n effeithiol. |
| Sicrhau y caiff cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant eu hymgorffori drwy ein gwaith ac wrth geisio sicrwydd gan ddarparwyr. |
| Adolygu ein canllawiau a phrosesau cofrestru i ddarparwyr, er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd a mwy o ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. |
| Parhau i ddatblygu ein swyddogaeth Rheolwr Cydberthnasau er mwyn i sefydliadau'r GIG wella effeithiolrwydd y rôl hon. |
| Adolygu ein hadnoddau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd i sicrhau ein bod yn defnyddio'r dulliau mwyaf priodol a hygyrch. |

# Blaenoriaeth 3

## Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd.



| Camau Gweithredu Strategol |
| --- |
| Byddwn yn gweithio gydag eraill i atgyfnerthu ein dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar wasanaethau gofal iechyd a'r bobl a'r cymunedau sy'n eu defnyddio. |
| Byddwn yn ystyried yn benodol yr heriau y mae grwpiau lleiafrifol yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd, gan ddefnyddio'r ddealltwriaeth hon er mwyn helpu i herio anghydraddoldebau gofal iechyd drwy ein gwaith. |
| Byddwn yn adeiladu ar ein cydberthnasau gwaith â phartneriaid er mwyn i ni gynyddu'r effaith a gawn ar ansawdd y gofal iechyd a gaiff ei ddarparu i bobl yng Nghymru. |
| Byddwn yn helpu ein staff i lunio barn ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau a systemau. |

| Camau Gweithredu 2024-2025 |
| --- |
| Rhannu ein canfyddiadau a'n dealltwriaeth yn rhagweithiol â rhanddeiliaid, darparwyr gofal iechyd a'r cyhoedd er mwyn helpu i ysgogi gwelliannau ym maes gofal iechyd. |
| Cydweithio â rhanddeiliaid i ddarparu sicrwydd Iechyd Meddwl mewn lleoliadau Cadw. |
| Parhau i ddarparu ein gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn mewn lleoliadau Iechyd Meddwl. |
| Parhau i ddefnyddio Uwchgynhadledd Gofal Iechyd yn effeithiol fel ffordd o rannu gwybodaeth. |
| Parhau i ymgysylltu â Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid AGIC er mwyn helpu i lywio ein gwaith a dylanwadu arno. |
| Sicrhau bod ein gwaith yn gyson â strategaethau cysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Llywodraeth Cymru, er mwyn rhannu arferion da a darparu cysondeb. |

# Blaenoriaeth 4

## Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i’w galluogi nhw, a’r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



| Camau Gweithredu Strategol |
|---|
| Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y gwaith o feithrin sgiliau a gwybodaeth ein staff. |
| Byddwn yn adeiladu ar y diwylliant dysgu a roddwyd ar waith gennym, gan sicrhau bod prosesau gwerthuso a myfyrio yn rhan greiddiol o’n gwaith. |
| Byddwn yn rhoi ein strategaeth llywodraethu ansawdd ar waith mewn ffordd sy’n sicrhau ei bod wrth wraidd popeth a wnawn. |

| Camau Gweithredu 2024-2025 |
|---|
| Cyflwyno sesiynau ar wersi a ddysgwyd i’n staff, gan adfyfyrio ar y ffordd o’u cyflwyno a’u heffaith ar ein holl waith. |
| Parhau i roi ein Strategaeth Ansawdd ar waith ym mhob rhan o’r sefydliad. |
| Sicrhau y caiff ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ei chynnwys mewn hyfforddiant i bob aelod o staff newydd yn ystod ei hyfforddiant sefydlu, ac yn barhaus i’r holl staff presennol. |
| Sicrhau bod ein strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn annog diwylliant cynhwysol a bod yn lle diogel i godi materion. |

# Adnoddau

## Yn unol â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, rydym yn disgwyl y byddwn yn wynebu pwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.


Mae gennym gyllideb o oddeutu £4.9m ar gyfer 2024-2025.

Mae gennym swyddi cyfwerth ag oddeutu 82 o aelodau o staff llawn amser yn ogystal â phanel o dros 200 o adolygwyr cymheiriaid arbenigol.

Mae gennym hefyd arbenigwyr ym maes Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a phanel o Seiciatryddion sy'n darparu ein gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD).

Mae gennym 44 o Adolygwyr Profiad y Claf ac Arbenigwyr drwy Brofiad sy'n gweithio gyda ni ar arolygiadau er mwyn casglu barn cleifion.

| Tîm | Swyddi |
|---|---|
| Uwch-swyddog Gweithredol | 3 |
| Ymchwiliadau | 7 |
| Arolygiadau | 13 |
| Rheoliadau | 8 |
| Adolygiadau | 6 |
| Uwchgyfeirio a Gorfodi | 2 |
| Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg | 13 |
| Strategaeth, Polisi ac Ymgysylltu | 6 |
| Cyngor clinigol (gan gynnwys gwasanaeth SOAD) | 6 |
| Gwasanaethau Corfforaethol (gan gynnwys cymorth busnes) | 18 |
| Cyfanswm | 82 |



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

## Cysylltu â Ni

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Drwy e-bost: AGIC@llyw.cymru
Dros y ffôn: **0300 062 8163**

www.agic.org.uk

Dewch o hyd i ni ar:

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49305, ISBN digidol 978-1-83577-870-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg